# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

**CA(3)-06-11**

## CA536 : Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Symiau) (Cymru) 2011

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r symiau sylfaenol a'r symiau uwch y caiff sefydliadau perthnasol godi tâl amdanynt drwy ffioedd dysgu ar gyfer cyrsiau israddedig llawnamser. Gall sefydliadau godi tâl sylfaenol o £4,000 am flwyddyn academaidd. Os oes cynllun mewn grym gan sefydliad, gellir codi tâl o £9,000.

Gan mai hwn yw'r tro cyntaf i Weinidogion Cymru arfer y pwer hwn, rhaid dilyn y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

### Craffu Technegol

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i'w hadrodd dan Reol Sefydlog 15.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### Craffu ar Rinweddau

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i'w hadrodd dan Reol Sefydlog 15.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn ar hyn o bryd.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**
**Chwefror 2011**